# Pleidleisiau A Thrafodion Dydd Mawrth, 22 Mai 2001

**Dechreuodd y Sesiwn am 2.00pm**

**Ethol Dafydd Wigley i'r Pwyllgor Diwylliant**
*NDM661* **-** Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan adran 57(8) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn ethol Dafydd Wigley (Plaid Cymru) ar ei Bwyllgor Diwylliant yn lle Gareth Jones (Plaid Cymru).

**Cynhaliwyd pleidlais:**

O blaid 21; Ymatal 1; Yn erbyn 0; Cyfanswm 22

**Cymeradwywyd y cynnig**

**2.01pm**
**Cwestiynau Llafar i'r Prif Weinidog**
**Gofynnwyd y 12 cwestiwn cyntaf. Tynnwyd cwestiwn 8 a 9 yn ôl**

**2.45pm**
**Datganiad: Y Prif Weinidog ar Adroddiad CBAC**

**3.23pm**
**Datganiad: Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar Gesiwyr Lloches**

**3.42pm**
**Datganiad Busnes: y Trefnydd**

**Roedd mwy na 10 Aelod yn gwrthwynebu'r datganiad busnes ac felly fe gynhaliwyd pleidlais.**

O blaid 27; Ymatal 0; Yn erbyn 20; Cyfanswm 47

**Cytunwyd ar y datganiad busnes.**

**3.49pm**
**Pwynt o Drefn**

**Ieuan Wyn Jones** o dan Reol Sefydlog 7.13 ynghylch pryd y gellid ystyried bod mater yn nwylo'r gyfraith (*sub-judice*); ac a gafodd y Prif Weinidog gyngor gan un o Swyddogion y Cynulliad ynghylch hyn.

Dywedodd y Prif Weinidog bod gwybodaeth gan ei Ymgynghorydd Cyfreithiol yn destun braint gyfreithiol.

Cadarnhaodd y Llywydd fod Rheol Sefydlog 7.13 yn nodi'r sefyllfa ynghylch materion *sub-judice*.

**3.58pm**
**Dadl ar y System Apelio Annibynnol ar gyfer Ffermwyr**
***NDM660* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:**

1. yn croesawu'r bwriad i sefydlu System Apelio Annibynnol ar gyfer Ffermwyr yng Nghymru mewn perthynas â phenderfyniadau a wneir ynghylch talu cymorthdaliadau amaethyddol.
2. yn galw ar y Gweinidog dros Amaethyddiaeth a Materion Gwledig i sicrhau bod y system apelio yn gwbl weithredol erbyn 31 Hydref 2001.

**Cyflwynwyd y gwelliant canlynol:**
**Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru) Peter Rogers (Gogledd Cymru)**
Ychwanegu trydydd paragraff

(3) yn galw ar y Gweinidog i gynnal adolygiad o effeithlonrwydd gweithredol ei Adran a'i Swyddfeydd Rhanbarthol o ran prosesu ceisiadau, er mwyn lleihau nifer yr achosion posibl sy'n cael eu cyfeirio at y broses apelio

**Cynhaliwyd pleidlais:**

**Gwelliant 1**

O Blaid 8; Ymatal 0; Yn erbyn 34; Cyfanswm 42

**Gwrthodwyd Gwelliant 1**

**Y cynnig**

O Blaid 42; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 42

**Cymeradwywyd y cynnig**

**4.29pm**
**Dadl ar Adroddiad y Prif Arolygydd ar Hyfforddiant a Datblygiad (Adroddiad ESTYN)**
***NDM662* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:**

Yn nodi Adroddiad Blynyddol 1999-2000 Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mai 2001 ac yn cydnabod bod y materion allweddol yn cael eu cynnwys yng nghylch gwaith Estyn o'r Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer 2001-02 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Ebrill 2001.

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**
**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
Yn llinell 2, dileu popeth ar ôl 2001 a gosod y canlynol yn ei le:

'ac yn nodi llythyr cylch gwaith Estyn ar gyfer 2001-02, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Ebrill 2001.'

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig:

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn galw ar y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes i:

Werthuso'r ffyrdd yr aethpwyd i'r afael â'r gwendidau a grybwyllwyd yn Adroddiad Blynyddol y llynedd;

Cyflwyno cynllun gweithredu sy'n nodi sut y bydd yn mynd i'r afael â'r prif faterion yn adroddiad presennol Estyn.

**Gwelliant 3 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig:

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn galw ar y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes i:

Fynd i'r afael â'r diffygion yn y ddarpariaeth addysg a hyfforddiant cyfrwng-Cymraeg, fel yr amlinellir yn yr adroddiad.

**Gwelliant 4 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig:

Mae’r Cynulliad Cenedlaethol yn galw ar y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes i:

Fynegi pryder ynglyn â’r cynnydd gwael a wneir gan ddisgyblion yng Nghymru wrth iddynt symud o’r ysgol gynradd i’r ysgol uwchradd, fel a grybwyllir yn yr adroddiad.

**Gwelliant 5 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig:

Mae’r Cynulliad Cenedlaethol yn galw ar y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes i:

Gynnal ymchwiliad i ffyrdd o leihau’r baich gweinyddol ar ysgolion yn ystod arolygiadau

**Cynhaliwyd pleidlais:**

**Gwelliant 1**

O Blaid 17; Ymatal 0; Yn erbyn 27; Cyfanswm 44

**Gwrthodwyd Gwelliant 1**

**Gwelliant 2**

O Blaid 17; Ymatal 0; Yn erbyn 27; Cyfanswm 44

**Gwrthodwyd Gwelliant 2**

**Gwelliant 3**

O Blaid 44; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 44

**Cymeradwywyd Gwelliant 3**

**Gwelliant 4**

O Blaid 44; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 44

**Cymeradwywyd Gwelliant 4**

**Gwelliant 5**

O Blaid 17; Ymatal 0; Yn erbyn 26; Cyfanswm 43

**Gwrthodwyd Gwelliant 5**

**Y cynnig, fel y'i diwygiwyd**

O Blaid 44; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 44

**Cymeradwywyd y cynnig, fel y'i diwygiwyd**

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.15pm**

******************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**9.05 am ddydd Iau, 24 Mai, 2001**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**

**DOGFENNAU A GYFLWYNWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF**

**DOGFENNAU A GYFLWYNWYD AR 21 MAI 2001**

Memorandwm Cywiriadau - Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Gwin) (Cymru) 2001 (LD803)

Memorandwm Cywiriadau - Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwch Rhif 3) (Cymru) 2001 (LD804)

Memorandwm Cywiriadau - Rheoladau Cig (Pwerau Gorfodi Ehangach) (Cymru) 2001 (LD805)